



Comisiynydd Plant Cymru

Beth Nesa? What Next? Holiadur 3–7

Darganfyddidau manwl



Cyflwyniad	2
Am yr arolwg	3
Yr Holiadur	6
Cyflwyno'r Canfyddiadau	6
Blaenoriaethau	12



beth nesa'
what next

dweud eich dweud
have your say

Cyflwyniad

Adroddiad yw hwn ar yr arolwg o blant 3-7 oed a gynhaliwyd yn hydref 2015 fel rhan o ymgynghoriad 'Beth Nesa? | What Next?'. Roedd yr arolwg yn un o gyfres o bedwar, a gynhaliwyd gyda grwpiau o blant o wahanol oedrannau, pobl ifanc, ac oedolion, yn casglu eu barn a'u profiadau er mwyn llywio blaenoriaethau Comisiynydd Plant Cymru i'r dyfodol. Mae arolygon i'r grŵp oed yma ar lefel genedlaethol yn anghyffredin, a dyma un o nodweddion unigryw ymgais y prosiect i gasglu barn ystod mor eang â phosib o blant a phobl ifanc.

Am yr arolwg

Cynnwys yr holiadur

Roedd yr arolwg 3-7 oed yn cynnwys holiadur hunan-lenwi, oedd yn cael ei gwblhau'n bennaf gan blant ar-lein trwy ddefnyddio cyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol. Roedd fersiynau papur o'r holiadur ar gael hefyd ar gais. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dull dosbarthu

Cafodd gwybodaeth am yr arolwg, gan gynnwys y dolenni i'r holiaduron ar-lein, ei dosbarthu mor eang â phosib yng Nghymru. Roedd hynny'n cynnwys anfon gwybodaeth i ysgolion a lleoliadau meithrin, anfon gwybodaeth trwy e-bost at sefydliadau eraill a chyrraedd rhieni trwy Twitter.

Y sampl

Derbyniwyd cyfanswm o 758 o holiaduron wedi'u cwblhau, ac maent wedi'u cynnwys yn

yr adroddiad hwn. Cwblhawyd 12 ymateb yn Gymraeg, ac roedd y 746 arall yn Saesneg. Dangosir nodweddion y plant yma yn Nhabl 1.


- Roedd tua 49% o blant yn diffinio'u hunain yn fenyw, 46% yn diffinio'u hunain yn wryw, a dewisodd rhyw 5% yr opsiwn 'dewis peidio â dweud' mewn ymateb i'r cwestiwn yma.
- Yr oedran mwyaf cyffredin oedd 6 oed (46%)

Tabl 1: Nodweddion y sampl (heb eu pwysoli)

Rhyw	
Benyw	49%
Gwryw	46%
Dewis peidio â dweud	5%
Oed	
3 oed	6%
4 oed	12%
5 oed	18%
6 oed	46%
7 oed	18%


Dangosir canran y plant fesul ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Canran y plant yn y sampl fesul ardal awdurdod lleol



Cafodd yr ardaloedd hyn eu grwpio'n bedwar rhanbarth 'macro', i gynrychioli gwahanol rannau o Gymru, a chafodd canrannau'r sampl ym mhob rhanbarth eu cymharu â chanrannau'r plant yn y boblogaeth gyfan fesul rhanbarth (Ffigur 2). Roedd peth tangynrychiolaeth yn achos rhanbarthau'r Cymoedd a'r Gogledd Gwledig, a gorgynrychiolaeth cyfatebol yn y rhanbarth Metropolitan. Rhoddwyd ystyriaeth i hynny wrth bwysoli'r sampl i'w ddadansoddi (gweler yr adran nesaf).

Ffigur 2: Canran y plant yn y sampl ac yn y boblogaeth fesul rhanbarth macro



Yr Holiadur

Ar wahân i'r wybodaeth ddemograffig uchod, roedd yr holiadur yn cynnwys saith cwestiwn yn yr adrannau canlynol:

- Yr ysgol a'r feithrinfa
- Hoff leoedd i chwarae
- Help wrth deimlo'n drist neu'n bryderus
- Blaenoriaethau plant

Roedd mwyafrif y cwestiynau mewn fformat blwch ticio caeedig. Roedd ambell gwestiwn â fformat ymateb penagored. Mae geiriad y cwestiynau a'r opsiynau ymateb i'w gweld yn yr adrannau perthnasol ar y canfyddiadau.

Cyflwyno'r Canfyddiadau

Pwysiad

Fel y nodwyd uchod, roedd dosbarthiad y plant yn anwastad o'i gymharu â phoblogaeth gyffredinol Cymru yn y grŵp oedran yma. Er mwyn rhoi sylw i hyn a sicrhau bod yr arolwg mor gynrychioliadol â phosib, cafodd y pwysidiadau eu cyfrifo i sicrhau bod

cydbwysedd y sampl yn gyfartal o ran rhyw ac oedran. Oherwydd maint a nodweddion y sampl nid oedd modd pwysoli'r data hefyd er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth y pedwar rhanbarth macro'n adlewyrchu'r hyn a geir yn y boblogaeth blant yn gyffredinol (fel y gwnaed gyda'r arolygon o blant hŷn a phobl ifanc) a dylid cadw hynny mewn cof wrth ddehongli'r canlyniadau. Mae'r holl ganfyddiadau a gyflwynir yng ngweddill yr adroddiad wedi'u pwysoli fel y disgrifiwyd uchod.

Data coll

Roedd lefelau cymharol isel (llai na 10%) o ddata coll yn achos yr holl gwestiynau, ac mae'r ymatebion hyn wedi'u heithrio o'r canrannau a drafodir oni nodir fel arall.

Talgrynnu

Er hwylustod wrth gyflwyno mae'r holl ganrannau wedi cael eu talgrynnu i'r pwynt canran agosaf, felly mae'n bosib na fydd cyfansymiau'r cwestiynau'n creu cyfanswm union o 100%.

Strwythur yr adroddiad

Mae strwythur yr adroddiad yn dilyn strwythur yr holiadur yn fras, a chyflwynir y canfyddiadau mewn adrannau pynciol.

Yr ysgol a'r feithrinfa

Gofynnwyd i'r plant pa leoliad addysgol roedden nhw'n ei fynychu yn ystod y dydd. Roedd tua 89% o'r plant yn mynd i'r ysgol; 6% i gylch chwarae neu Gylch Meithrin; 3% i feithrinfa ac roedd 2% yn mynd at warchodwr plant neu mewn trefniant arall.

Yng nghyswllt profiadau plant o'r lleoliadau uchod, gofynnodd yr arolwg:

— Ydy oedolion yn gwrandao arnat ti yn yr ysgol neu'r feithrinfa?


— Beth wyt ti'n hoffi am yr ysgol/meithrinfa?

— Beth nad wyt ti'n hoffi am yr ysgol/meithrinfa?

Cael gwrandawriad

Mae Ffigur 3 yn crynhoi ymatebion y plant, wedi'u pwysoli o ran oed a rhyw, i'r cwestiwn ynghylch a yw oedolion yn gwrandao arnyn nhw yn yr ysgol neu'r feithrinfa. Atebodd dros dri chwarter y plant 'ydyn' i'r cwestiwn yma, ac atebodd 14% arall 'weithiau'. Dywedodd tua un o bob 25 o blant fod oedolion ddim yn gwrandao arnyn nhw.

Ffigur 1: Ydy oedolion yn gwrandao arnat ti yn yr ysgol/meithrinfa?



Pethau roedd plant yn eu hoffi am yr ysgol neu'r feithrinfa

Gofynnwyd cwestiwn ymateb agored i'r plant ynghylch beth roedden nhw'n ei hoffi am yr ysgol neu'r feithrinfa. Rhoddodd mwyafrif mawr y plant (dros 680) ymateb i'r cwestiwn yma. Y prif bynciau (y soniodd o leiaf deg o blant amdanynt) a nodwyd yn yr ymatebion oedd:

- **Chwarae:** Soniodd dros 300 o blant am chwarae – yn aml yn gyffredinol, ond weithiau'n fwy penodol (e.e. *'chwarae gyda theganau'*). Roedd y pwnc hwn yn aml wedi'i gysylltu â ffrindiau a/neu amser egwyl ac amser chwarae. Soniodd mwy na 40 o'r plant yma'n benodol am hoffi chwarae mewn mannau awyr agored. Soniodd rhyw 40 o blant yn benodol am deganau, fel arfer mewn cysylltiad â chwarae. Soniodd nifer tebyg o blant am amser egwyl ac amser chwarae.
- **Ffrindiau** – soniodd dros 150 o blant am ffrindiau
- **Dysgu / gweithio** (yn gyffredinol). Dywedodd mwy na 60 o blant eu bod yn hoffi dysgu neu weithio. Er enghraifft:

“Gweithio'n galed”

‘Dwi'n hoffi fy athrawon. Dwi'n hoffi gwneud fy ngwaith.’

‘Dwi'n hoffi dysgu pethau newydd’.

- **Gweithgareddau/gwersi penodol.** Y gweithgareddau/gwersi penodol y soniwyd amdanynt amlaf oedd gwaith creadigol (tynnu lluniau, peintio, adeiladu ac ati), darllen/ysgrifennu a mathemateg – y soniodd dros 60 o blant am bob un ohonynt. Gwersi eraill y soniodd o leiaf 10 o blant amdanynt oedd Chwaraeon/Addysg Gorfforol a Cherddoriaeth ac amser dewis rhydd.

- **Athrawon** – soniodd dros 40 o blant am eu hathrawon, e.e.

‘Mae'r ysgol yn hwyl ac mae fy athrawon yn gofalu amdana i.’

- **Bwyd** (cinio ysgol a byrbryd) – soniodd mwy na 20 o blant am hyn

Pethau doedd plant ddim yn hoffi am yr ysgol neu'r feithrinfa

Gofynnwyd cwestiwn tebyg i'r plant ynghylch beth doedden nhw ddim yn ei hoffi am yr ysgol neu'r feithrinfa. Rhoddodd cyfanswm o 569 o blant ateb i'r cwestiwn yma. Dywedodd ychydig dros 100 o'r plant yma nad oedd unrhyw beth doedden nhw ddim yn ei hoffi am yr ysgol.

O blith gweddill y plant, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn yma'n anoddach eu categorio na'r pethau roedd plant yn eu hoffi am yr ysgol, gan fod llawer yn benodol iawn, a ddim yn grwpio'n dwt i'r themâu – e.e. *'cael fy nghicio gan bêl-droed'*, *'dydw i ddim yn hoffi chwarae gyda doliau'*.

Serch hynny, roedd modd nodi nifer bach o bynciau a themâu allweddol.

— **Ymddygiad plant eraill** – soniodd ymhell dros 100 o blant am hyn. Weithiau cyfeiriodd y plant yn benodol at 'fwlio'. Ond soniwyd hefyd am amrywiaeth o ffyrdd eraill o ymddwyn, er enghraifft:

'Mae bechgyn yn gas i fi'

'Ddim yn hoffi plant cas'

'Dwy ddim yn hoffi pobl yn galw enwau arna i ac mae pobl yn fy ngwthio i drosodd'

'Dydw i ddim yn hoffi plant sy'n ddigywilydd wrtha i a'm ffrindiau.'

— **Gwersi a gwaith** oedd y thema arall gyffredin. Weithiau soniwyd am hynny'n gyffredinol. Weithiau soniwyd yn fwy penodol am wersi arbennig, ac ymddangosai mai ysgrifennu oedd y mwyaf amhoblogaidd, gyda mathemateg yn dilyn.

— **Cael dweud y drefn.** Soniodd mwy na 20 o blant yn benodol am athrawon yn dweud y drefn wrthyn nhw fel rhywbeth doedden nhw ddim yn ei hoffi am yr ysgol neu'r feithrinfa


Hoff leoedd i chwarae

Gofynnodd yr arolwg i'r plant ddewis hyd at dri hoff le i chwarae o blith rhestr o naw. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 4.

Dewisodd mwyafrif (61%) y plant y pwll nofio yn un o'u tri hoff le i chwarae. Roedd y ddau ddewis arall mwyaf poblogaidd yn lleoliadau awyr agored – parciau a thraethau. Cymharol ychydig o blant (6%) ddewisodd y stryd yn un o'u hoff leoedd i chwarae.

Roedd plant iau yn fwy tebygol o ddewis y parc yn un o'u hoff leoedd i chwarae (62% o'r plant 3 a 4 oed o'i gymharu â 43% o'r plant 7 oed). Roedd plant hŷn yn fwy tebygol o ddewis y pwll nofio (42% o'r plant 3 oed a 76% o'r plant 7 oed) a'r caeau (2% o'r plant 3 oed ac 17% o'r plant 7 oed).

Ffigur 2: Hoff leoedd plant i chwarae



Help wrth deimlo'n drist neu'n bryderus


Gofynnwyd i'r plant 'Pan wyt ti'n poeni am rywbeth, neu'n teimlo'n drist, pwy sy'n helpu ti?' a dim ond un opsiwn gallen nhw ddewis. Mae crynodeb o'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 5. Dewisodd ychydig dros hanner y plant (53%) eu mam a dewisodd tua un o bob saith eu tad (14%) neu athro (13%). Dylid cofio bod yr arolwg wedi cael ei gwblhau mewn ysgolion a meithrinfeydd, ac y gallai hynny fod wedi dylanwadu ar yr atebion.

Dewisodd tua un o bob 10 o blant 'rhywun arall', ac roedd blwch testun agored lle gallai'r plant roi manylion. Y bobl eraill fwyaf cyffredin i roi help oedd brodyr a chwiorydd a ffrindiau.

Roedd bechgyn yn fwy tebygol (17%) o ddewis eu tad na merched (11%).

Roedd plant 5 oed a throsodd hefyd yn fwy tebygol (19%) o ddewis eu tad na phlant 3-4 oed (6%).

Ffigur 3: Pwy (yw'r prif berson) sy'n helpu plant pan fyddan nhw'n teimlo'n drist neu'n poeni am rywbeth?



Blaenoriaethau

Gofynnwyd i'r plant ddewis o restr o saith blaenoriaeth oedd yn deillio o ganlyniadau'r ymgynghoriad yn ystod cyfnod cyntaf y prosiect.

Roedd geiriad y cwestiwn fel a ganlyn:

Mae Sally* yn meddwl am ffyrdd i wneud bywydau plant yn well. Dewisa 2 beth o'r rhestr sy'n bwysig i ti.

(* Sylwer bod Sally wedi cael ei chyflwyno fel Comisiynydd Plant Cymru yn gynharach yn yr holiadur.)

Mae canlyniadau'r cwestiwn yma wedi'u crynhoi yn Ffigur 6, yn nhrefn ddisgynnol blaenoriaeth. Y flaenoriaeth gryfaf, a ddewiswyd gan bron hanner (49%) y plant, oedd 'mwy o lefydd i chwarae'. Dewiswyd pob un o'r pedair blaenoriaeth nesaf gan gyfran debyg o'r plant.

Ffigur 4: Blaenoriaethau plant i wneud pethau'n well i blant yng Nghymru.

